

Carwyn y babi



Tric
a Chlic



Mae Carwyn y babi yn flwydd
oed. Pen-blwydd hapus
Carwyn.

1



Mae eisiau bwyd
ar Carwyn y babi.

2



"Wyt ti eisiau wy?" gofynnodd
Dwynwen, ei chwaer.



"Wy, wy, wy," gwaeddodd
Carwyn y babi.



"Wyt ti eisiau llwy?"
gofynnodd Dwynwen, ei
chwaer.



"Llwy, llwy, llwy," gwaeddodd
Carwyn y babi.



Mae Carwyn yn gwneud ei
orau glas i fwyta'r wy gyda'r
llwy ond mae'n gwneud
llanast llwyr!



Mae wy ar ei drwyn.



Mae wy ar ei ddwylo.



Mae wy yn hedfan drwy'r awyr.

Mae Carwyn yn cael hwyl
ar ei ben-blwydd.

